

CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS- RANBARTH CAERDYDD

COFNODION

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y CABINET RHANBARTHOL: 30
MEHEFIN 2017

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol oedd yn Bresennol:

Y Cyng. Nigel Daniels	-	Cyngor Blaenau Gwent
Stephen Gillingham, Prif Weithredwr	-	Cyngor Blaenau Gwent
Y Cyng. Huw David, Arweinydd	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Mark Shephard	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. Sean Morgan	-	Cyngor Caerffili
Chris Burns, Prif Weithredwr	-	Cyngor Caerffili
Cyng. Huw Thomas	-	Cyngor Caerdydd
Paul Orders, Prif Weithredwr	-	Cyngor Caerdydd
Y Cyng. Kevin O'Neill, Arweinydd	-	Cyngor Merthyr
Gareth Chapman, Prif Weithredwr	-	Cyngor Merthyr
Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd	-	Cyngor Sir Fynwy
Paul Matthews, Prif Weithredwr	-	Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd	-	Cyngor Casnewydd
Will Godfrey, Prif Weithredwr	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Christopher Lee	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd	-	Cyngor Torfaen
Alison Ward, Prif Weithredwr	-	Cyngor Torfaen
Y Cyng. John Thomas, Arweinydd	-	Bro Morgannwg
Rob Thomas, Prif Weithredwr	-	Bro Morgannwg

Swyddogion:

Liz Weale	-	Corff Atebol
Hrjinder Singh	-	Corff Atebol
Ian Allwood	-	Corff Atebol
Alistair Milburn	-	Cyfathrebiadau Effeithiol
Sheila Davies, Cyfarwyddwr	-	Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig
Sian Lewis	-	Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig
Matthew Swindell	-	Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. David Poole, Arweinydd	-	Cyngor Caerffili
Darren Mepham, Prif Weithredwr	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr - Cyngor Rhondda Cynon Taf
Christine Salter - Corff Atebol

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Gwahoddwyd Alison Ward i Gadeirio ar gyfer rhan ffurfiol proses benodi'r CCB yn absenoldeb Darren Mephram (Y Prif Swyddog Gweithredol Arweiniol). Nodwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau. Gofynnodd y Cabinet i roi gwybod i Chris Bradshaw eu bod yn cydymdeimlo ag ef.

2. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan a wnaed ar eitemau ar agenda'r cyfarfod.

3. Ethol Cadeirydd/ Is-Gadeirydd(ion) ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gofynnwyd am enwebiadau gan Aelodau ar gyfer Cadeirydd am y flwyddyn i ddod. Enwebwyd y Cynghorydd Andrew Morgan. Cafodd ei eilio a'i ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yna, aeth y Cyng. Morgan ati i Gadeirio a gofyn am enwebiadau ar gyfer dau Is-Gadeirydd. Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer y Cynghorwyr Peter Fox a Huw Thomas. Cawsant eu heilio a'u hethol fel Is-Gadeiryddion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4. Adroddiad Cynnyrch a Datganiad Ariannol Blynyddol 2016/17 (Cofnod Rhif 7)

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar ran y Corff Atebol:-

1. Rhoi manylion i'r Cyd-Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cyd-Gabinet) am yr alldro terfynol yn erbyn ei gyllideb ar gyfer rhan o'r flwyddyn 2016/17, sef y cyfnod rhwng 1 Mawrth – 31 Mawrth 2017.
2. Cyflwyno i'r Cyd-Gabinet Ffurflen Flynyddol y Cyrff Llai heb ei harchwilio (Ffurflen Flynyddol) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, i'w hystyried a'i chymeradwyo, yn unol â'r dyddiad cau statudol, sef 30 Mehefin 2017.
3. Yn amodol ar y Cyd-Gabinet yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol, caiff y ffurflen ei chyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i gynnal ei harchwiliad allanol o'r ffurflen.

PENDERFYNWYD: y dylai Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

- a) Nodi'r alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 a lefel y gwarged ar gael i gefnogi cyllideb y Cyd-Gabinet ar gyfer 2017/18;
- b) Ystyried a chymeradwyo Ffurflen Flynyddol y Cyrff Llai heb ei harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, wedi'i hatodi fel Atodiad A, ac;

- c) Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r Ffurflen Flynyddol ar ran y Cyd-Gabinet ac awdurdodi'r Corff Atebol i gyflwyno'r Ffurflen Flynyddol i Swyddfa Archwilio Cymru.

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion y Cabinet Rhanbarthol yn ei gyfarfodydd ar :-

- a) 17 Mawrth 2017
- b) 02 Mai 2017

Gofynnodd y Cyng. Morgan i gydweithwyr a oedd ganddynt unrhyw ddiwygiadau i'w gwneud i'r cofnodion drafft o'r ddau gyfarfod diwethaf a ddosbarthwyd. Tynnodd Sheila Davies sylw Aelodau at ddiwygiadau i ddwy frawddeg yng Nghofnod Rhif 5 o gofnodion 02 Mai 2017, gan fod angen addasiadau bach iddynt. Cytunwyd ar y diwygiadau yn dilyn hynny ac yna cadarnhawyd dwy gyfres o gofnodion fel rhai cywir o'r ddau gyfarfod.

6. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Gofynnodd y Cyngorydd Morgan i gydweithwyr a oeddent yn dymuno parhau i gwrdd ar ddydd Gwener, neu newid i ddiwrnod arall. Awgrymwyd boreau Llun hefyd. Nodwyd bod y ddau ddiwrnod yn effeithio ar wahanol Aelodau am wahanol resymau, ond cytunwyd y byddai'r dyddiadau drafft yn cael eu dosbarthu i Aelodau gytuno arnynt yn y cyfarfod ffurfiol nesaf. Yn dilyn hynny, byddai calendr o gyfarfodydd ar gyfer y 6 i 12 mis nesaf ar gael ar y wefan er mwyn hysbysu'r cyhoedd a phartneriaid am amserlen o gyfarfodydd cyhoeddus.

7. Unrhyw fater arall

- i) Cyfeiriodd y Cyng. David at adroddiad Tasglu'r Cymoedd, a oedd ar fin cael ei gyhoeddi, a chynhaliwyd trafodaeth yn ymwneud ag ymgysylltu ac ymgynghori â'r grŵp o'r corff hwn o ran gwaith partneriaeth rhanbarthol. Awgrymwyd y dylid gwahodd Maureen Howell i gyfarfod anffurfiol yn y dyfodol i ddiweddarau'r Aelodau ar waith y Tasglu.
- ii) Awgrymwyd y dylid gwneud cysylltiadau ffurfiol â chydweithwyr sy'n ymgymryd â Bargen Ddinesig Abertawe fel ffordd o fynd i'r afael â phrosiectau o arwyddocâd mwy cenedlaethol ar draws De Cymru, gan ddefnyddio enghreifftiau ymhlith dinasoedd Lloegr sy'n gwneud gwaith tebyg. Gallai hyn gynnwys cwrdd â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a'r DU.
- iii) Nodwyd bod Will Godfrey wedi trefnu cyfarfod cychwynnol â Llywodraeth Cymru ynghylch ardrethi busnes yr wythnos nesaf. Gofynnodd Aelodau i Will siarad â nhw yn benodol am dwf a materion cadw ardrethi busnes a rhoi adborth mewn cyfarfod anffurfiol diweddarach, yn ogystal â chysylltu â'r Prif Swyddog yn Abertawe fel cymhariaeth.

Diolchodd y Cyng. Morgan ei gydweithwyr am fod yn bresennol a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.

CARDIFF CAPITAL REGION CITY DEAL REGIONAL CABINET MEETING

MINUTES

REGIONAL CABINET ANNUAL GENERAL MEETING: 30 JUNE 2017

Regional Cabinet Members Present:

Cllr Nigel Daniels	-	Blaenau Gwent Council
Stephen Gillingham, Chief Exec	-	Blaenau Gwent Council
Cllr Huw David, Leader	-	Bridgend Council
Mark Shephard	-	Bridgend Council
Cllr Sean Morgan	-	Caerphilly Council
Chris Burns, Chief Exec	-	Caerphilly Council
Cllr Huw Thomas	-	Cardiff Council
Paul Orders, Chief Exec	-	Cardiff Council
Cllr Kevin O'Neill, Leader	-	Merthyr Council
Gareth Chapman, Chief Exec	-	Merthyr Council
Cllr Peter Fox, Leader	-	Monmouthshire Council
Paul Matthews, Chief Exec	-	Monmouthshire Council
Cllr Debbie Wilcox, Leader	-	Newport Council
Will Godfrey, Chief Exec	-	Newport Council
Cllr Andrew Morgan, Leader	-	Rhondda Cynon Taf Council
Christopher Lee	-	Rhondda Cynon Taf Council
Cllr Anthony Hunt, Leader	-	Torfaen Council
Alison Ward, Chief Exec	-	Torfaen Council
Cllr John Thomas, Leader	-	Vale of Glamorgan
Rob Thomas, Chief Exec	-	Vale of Glamorgan

Officers:

Liz Weale	-	Accountable Body
Hrjinder Singh	-	Accountable Body
Ian Allwood	-	Accountable Body
Alistair Milburn	-	Effective Communications
Sheila Davies, Director	-	City Deal PMO
Sian Lewis	-	City Deal PMO
Matthew Swindell	-	City Deal PMO

Apologies:

Cllr David Poole, Leader	-	Caerphilly Council
Darren Mephram, Chief Exec	-	Bridgend Council
Chris Bradshaw, Chief Exec	-	Rhondda Cynon Taf Council
Christine Salter	-	Accountable Body

1. Welcome and Apologies for Absence

Alison Ward was invited to take the Chair for the formal part of the AGM appointment process in the absence of Darren Mephram (Lead CEO). Apologies were noted and recorded. The Cabinet asked that their condolences be passed on to Chris Bradshaw.

2. Declarations of Interest

There were no declarations of interest made on items on the meeting agenda.

3. To elect a Chairperson / Vice Chairperson(s) for the forthcoming year.

Nominations were requested for a Chair for the coming year from Members. Councillor Andrew Morgan was nominated, seconded and elected as Chair for the coming year.

Cllr Morgan then took the Chair and asked for nominations for two Vice-Chairs. Nominations for Councillors Peter Fox and Huw Thomas were received, seconded and both were elected as Vice-Chairs for the coming year.

4. 2016/17 Out-Turn Report & Annual Financial Return (Minute No.7)

Cabinet considered a report on behalf of the Accountable Body:-

1. To provide Cardiff Capital Region Joint Cabinet (Joint Cabinet) with details of the final out-turn position against its 2016/17 part-year budget covering the period 1st March – 31st March 2017.
2. To present to Joint Cabinet the draft unaudited Annual Smaller Bodies Return (Annual Return) for the year ended 31st March 2017, for consideration and approval, in-line with the statutory deadline of 30th June 2017.
3. Subject to Joint Cabinet approving the Annual Return, the document will be submitted to the Auditor General for Wales, to enable the Wales Audit Office (WAO) to undertake its external audit of the return.

RESOLVED: that Cardiff Capital Region Joint Cabinet:

- a) Noted the final out-turn position for the financial year ended 31st March 2017 and the level of surplus available to support the Joint Cabinet's 2017/18 budget;
- b) Considered and approved the unaudited Smaller Bodies Annual Return for the year ended 31st March 2017, attached as Appendix A, and;
- c) Authorised the Chairman to sign the Annual Return on behalf of the Joint Cabinet and authorise the Accountable body to submit the Annual Return to the Wales Audit Office.

5. To receive and approve the minutes of the Regional Cabinet at its meetings on:-

- a) 17 March 2017
- b) 02 May 2017

Cllr Morgan asked colleagues if they had any amendments to make to the draft minutes from the previous two meetings that had been circulated. Sheila Davies made Members aware of amendments to two of the sentences within Minute No.5 of the 02nd May 2017 minutes as two sentences required slight alterations. The amendments were subsequently agreed and both sets of minutes were then confirmed as correct records of the two meetings.

6. Date of Next Meeting

Cllr Morgan asked colleagues if they wished to continue meeting on a Friday, or move to an alternate day. Monday mornings had also been suggested. Both days were noted to have an impact on different Members for different reasons, but it was agreed that draft dates would be circulated for Members to agree at the next formal meeting. Subsequently, a calendar of meetings for the next 6 to 12 months would be made available on the website in order to inform the public and partners of the schedule of public meetings.

7. Any Other Business

- i) Cllr David referred to the Valleys Task Force report which was about to be published, and discussion took place concerning engagement and consultation with the group from this body in terms of regional partnership working. It was suggested that Maureen Howell be invited to a future informal meeting to provide an update to Members on the work of the Task Force.
- ii) It was suggested that more formal links be made with colleagues undertaking the Swansea City Deal as a means of addressing more nationally significant projects across South Wales, using examples of collaboration amongst English cities doing similar work. This may include meeting with Welsh and UK Government colleagues.
- iii) It was noted that Will Godfrey had an initial meeting set up with Welsh Government regarding business rates next week. Members asked Will to speak to them specifically about growth and business rate retention issues and feedback at a later informal meeting, as well as contact the lead Officer in Swansea as a comparison.

Cllr Morgan thanked colleagues for attending and the meeting was concluded.